**Cofnodion Pwyllgor Brys Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Fercher, 15fed Hydref, 2025 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Elen(EH),**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Dilys (DAP),Richard (RR), Keith (KR), Steve (SW), Dwynwen (DP), Iolo ap Gwynn (IAG),Erwyn (ERJ), Eurig (EJ).

Ymddiheuriadau: Matthew, Dewi, Gethin,

**1. TALIADAU I GYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG (CMP)**

Adroddwyd

- bydd y taliad a wneir i'r CMP ar gyfer aelodau'r Clwb yn codi i £30.74 y pen yn 2026
- roedd y CMP wedi datgan y byddai'r taliadau a godir ganddynt yn cynyddu hefo lefel chwyddiant yn flynyddol
- mai £25 yw tâl aelodaeth presennol y Clwb ac nad yw'r sefyllfa gyfredol felly yn gynaliadwy
- bod y Trysorydd yn argymell bod y Clwb yn cadw swm o oddeutu £5,000 yn ei goffrau er mwyn gwarantu sefyllfa ariannol gadarn. Mae £5,700 yn y coffrau ar hyn o bryd
- os y pennir tâl aelodaeth o rhwng £33 - £35, bydd arian yn cronni yng nghyfrif y Clwb am gyfnod. Gellid defnyddio'r arian hwnnw i wneud y taliadau i'r CMP ar ôl i'w taliad godi 'n uwch na thâl aelodaeth y Clwb fel na fyddai angen cynyddu'r tâl aelodaeth am gyfnod sylweddol
- bod angen i'r Pwyllgor wneud argymhelliad i'r Cyfarfod Blynyddol ar 15fed o Dachwedd, 2025, ar y mater.

Cytunwyd argymell i'r Cyfarfod Blynyddol bod y Pwyllgor

i. yn argymell fod y tâl aelodaeth yn codi i £35 yn 2026
ii. gofyn i'r Trysorydd ysgrifennu unwaith eto at yr unigolion hynny nad ydynt yn talu'r tâl aelodaeth llawn yn eu hysbysu am y sefyllfa.

**2. TAITH GAEAF ALBAN 2026**

Ystyriwyd yr angen neu beidio i ychwanegu swm o hyd at 10% at gost taith aeaf 2026 y Clwb i i Crianlarich yn yr Alban yn unol â chanllawiau'r Clwb ar deithiau preswyl

Cytunwyd
i. gan mai nifer penodedig o ystafelloedd mewn gwesty sydd dan sylw yn achos y daith yma fod y risg o wynebu unrhyw golled a fyddai'n disgyn ar y Clwb yn isel iawn ac felly na fyddai angen cynyddu'r gost o gwbl
ii. cadarnhau'r polisi y bydd gan amlaf angen ychwanegu rhywfaint at gost teithiau preswyl y Clwb yn arbennig os bydd angen talu blaendal heb wybod yn union faint o aelodau fydd yn mynychu er mwyn sicrhau na fydd y Clwb yn gorfod cwrdd ag unrhyw ddiffyg
iii. dylai trefnydd taith breswyl drafod gyda'r Cadeirydd, Trysorydd a'r Ysgrifennydd Gweithgareddau faint yn union o gynnydd fydd angen hyd at 10% o'r gost dybiedig.